**Amserlen arfaethedig y cyfarfodydd:**

**Hydref 2013:** **Cyfarfod cychwynnol**

Bydd y cyfarfod hwn yn penodi aelodau ar gyfer swyddi allweddol, yn egluro pam yr aethpwyd ati i gynnull y grŵp, yn cytuno ar y cylch gorchwyl ac yn datblygu cynllun gwaith.

**Chwefror 2014:** **Gwahanu ar sail rhyw a'r bwlch cyflog**

Bydd y cyfarfod hwn yn ystyried achosion y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw a gwahanu ar sail rhyw yn y gweithle. Bydd y meysydd trafod yn cynnwys cynrychiolaeth menywod yn y sectorau â blaenoriaeth, prentisiaethau a gyrfaoedd STEM.

**Mehefin 2014:** **Symud ymlaen**

Bydd y cyfarfod hwn yn bwrw golwg ar yr hyn sy'n rhwystro menywod rhag symud ymlaen yn eu gyrfaoedd ac yn ystyried sut y gellir cynorthwyo menywod i wireddu eu potensial yn y gweithle.

**Hydref 2014:** **Y Wasgfa Sgiliau**

Bydd y cyfarfod hwn yn ystyried y tanddefnydd a wneir o sgiliau menywod ac yn trafod sut y gellir defnyddio'r adnodd hwn yn well i gefnogi'r economi.

**Chwefror 2015:** **Y Gweithle Modern**

Sut y gall arferion gweithle modern gynorthwyo i sicrhau'r newid sydd ei angen mewn diwylliant i gefnogi menywod i gymryd rhan yn y farchnad lafur i'w llawn botensial.

**Mehefin 2015:** **Pwy sy'n Poeni?**

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar ddyletswyddau gofalu ac ar sut y dylid cefnogi gweithwyr i gydbwyso eu cyfrifoldebau yn y cartref ac yn y gweithle.

**Hydref 2015:** **Menywod ym myd busnes**

Bydd y cyfarfod hwn yn ystyried diffyg cynrychiolaeth menywod ym maes busnes. Yn y sesiwn hon, byddwn yn

bwrw golwg ar y rhwystrau ac yn ystyried sut y gellir annog a chefnogi menywod sy'n entrepreneuriaid.

**Chwefror 2016:** **Beth nesaf?**

Bydd y cyfarfod hwn yn pwyso a mesur y trafodaethau ac yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn economi Cymru.